CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION MAWRTH 21, 2017

Cyfarfod Cyngor Cymuned Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Llanfachreth
Nos Fawrth, Mawrth 21, 2017 am 7:30 o'r gloch.

Presennol Cynghorwyr: Llion Rh. Williams (Cadeirydd), Rhun Prys Jones, Meurig Ashton, Mordaf Roberts, Peredur Jenkins, Geraint Evans Emlyn Roberts a Huw A. Evans Hefyd Henry M. Edwards.

1.Croeso'r Cadeirydd

Croesawyd pawb oedd yn bresennol.

2. Ymddiheuriadau:

Nid oedd ymddiheuriadau.

3. Datgan diddordeb.

Nid oedd neb yn datgan diddordeb.

4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Chwefror 21, 2017

Cynigwyd ac eiliwyd fod y cofnodion yn gywir.

5. Materion yn codi o'r cofnodion Chwefror 21, 2017

Nid oedd materion yn codi.

6. Gohebiaeth

a. Llythyr (8/2/2017) oddi wrth Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn rhoi gwybod maent am gynnal arolwg o'r trefniadau etholiadol ar gyfer Sir Gwynedd. Maent am ystyried maint Cyngor Gwynedd, a nifer a ffiniau ei ranbarthau etholiadol yn seiliedig ar y patrwm presennol o gymunedau a wardiau cymunedol. Os mae sylwadau, maent eu hangen cyn Mai 31, 017.

b. Llythyr (15/2/2017) oddi wrth Swyddog Gweithredol Llesiant, Cyngor Gwynedd. Amgáu mae poster yn rhoi gwybodaeth am wasanaeth DEWIS Cymru sef wefan Llesiant. Maent angen ei arddangos mewn lle amlwg. Amgáu mae ffurflen i'w chwblhau.

Penderfynwyd arddangos y poster.

c. Llythyr ateb (21/2/2017) oddi wrth Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd bin halen newydd yn cael ei roi wrth Drws y Nant pryd fydd y bin presennol yn wag. Hefyd, bydd y bin halen wrth Tyddun Du, Hermon yn cael ei lenwi. (Cofnodion Ionawr 17, 2017, Eitem 8.a.)

ch. Llythyr (22/2/2017) oddi wrth Un Llais Cymru. Amgáu mae rhestr o gyrsiau sydd ar gael. Y cwrs lleol yw Cynllunio Cymunedol / Lle ac mae yn Canolfan Hen Blas, Bala ar ddydd Mercher 15/3/2017 am 6.30yh. Cost y cwrs yw £35.

d. Llythyr (7/3/2017) oddi wrth Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru. Amgáu mae llythyr oddi wrth y Comisiynydd i Liz Savile-Roberts AS yn gofyn am ei sylwadau ynglŷn â chynllun Heddlu Gogledd Cymru i gau'r ddalfa yn Nolgellau. Mae rhesymau cryf i gau'r ddalfa (bydd orsaf yr heddlu yn parhau ar agor). Mewn llythyr ateb oddi wrth Liz Savile-Roberts mae hi'n gofyn am fwy o wybodaeth pam mae angen cau'r ddalfa. Mewn llythyr ateb iddi mae hi'n cael gwybod bydd cau'r ddalfa yn golygu safiad o £0.3miliwn y flwyddyn i Heddlu Gogledd Cymru a bydd hyn yn golygu cynnydd o 2 Ringyll a 4 Cwnstabl ym Meirionnydd.

dd. Llythyr (Chwefror 2017) oddi wrth Swyddog Canlyniadau, Cyngor Gwynedd ynglŷn â Etholiadau Cynghorau Tref / Cymuned.

Bydd etholiadau Cyngor Sir a'r Cynghorau Tref / Cymuned yn cael eu cynnal ar Mai 4 2017.

Amgáu mae:

i. Papur Enwebu i bob aelod presennol sy'n dymuno bod yn ymgeisydd yn yr etholiad. I gynorthwyo gyda chadarnhau enw a rhif y Cynigydd ac Eilydd mae amgáu copi o'r Cofrestr Etholwyr.

ii. Ffurflen Cydsyniad Ymgeisydd ar gyfer Enwebiad. Bydd angen ei dychwelyd i swyddfa'r Cyngor yn Dolgellau rhwng Mawrth 20 ac Ebrill 4. Ni ddylid ei dyddio cyn Mawrth 7.

iii. Ffurflen Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda Deddfau Cynrychiolaeth y Bobl. Dylai ymgeiswyr sy'n sefyll dan enw plaid wleidyddol bod gyda thystysgrif a roddwyd gan swyddog enwebu cofrestredig y blaid honno.

iiii. Copi o'r Rhybuddion Etholiad sydd i'w arddangos o Mawrth 17.

v. Lythyr (Ionawr 2017) oddi wrth Llywodraeth Cymru. Mae'r llythyr i bob ymgeisydd yn llongyfarch hwy am sefyll yn yr etholiad, ac maent angen gwybodaeth ganddynt.

Cwblhawyd y ffurflenni yn y cyfarfod.

e. Llythyr (Mawrth 2017) oddi wrth Rheolwr Uned Partneriaeth Gwynedd a Môn. Maent wedi gwneud gwaith ymchwil i ddysgu a deall mwy am lesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwyllianol a sut eu gwella. Amgáu mae fersiwn drafft o asesiad Gwynedd ac maent angen ein barn arno cyn cyhoeddi'r fersiwn terfynol. Amgáu mae holiadur i roi ein barn ac maent ei angen cyn Ebrill 13, 2017.

f. Llythyr (23/1/2017) oddi wrth Llywodraeth Cymru. Maent eisiau gwybod y gwasanaethau sy'n cael eu darparu a'r asedau sy'n cael eu rheoli gan y Cyngor. Amgáu mae holiadur i'w lenwi.

Penderfynwyd cwblhau'r holiadur.

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Deddf Cynllunio Gwlad a Thref, 1990. Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref, (Gweithdrefn Rheoli Datblygiad) (Cymru) 2012.

i. NP5/54/438A. Mae'r Awdurdod yn caniatáu Cais ol-weithredol i gadw adeilad ar gyfer defnyddio fel llety gwyliau, cadw storfagoed a sied, a cadw tanc septig. Beudy Rhif 1, Brithgwm Isaf, Coed Brithgwm, Brithdir.

b. Cais cynllunio NP5/54/550. Dymchwel yr estyniad unllawr a ty allan presennol, a creu estyniad deulawr. Glasfryn, 4 Glanwnion Row, Drws y Nant.

Penderfynwyd cefnogi'r cais.

8. Materion Ariannol

a. Llythyr (6/3/2017) oddi wrth Papur Llafar y Deillion Dolgellau a'r Cylch yn diolch am ein rhodd o £50.

b. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29 Chwefror, 2017: £1,136.27.

c. Balans yn y banc ar 29 Chwefror, 2017: £7,605.23.

ch. Llythyr (7/3/2017) oddi wrth Eisteddfod Genedlaethol Cymru yn diolch am ein rhodd o £100

d. Llythyr (8/3/2017) oddi wrth Elusen Ambiwlans Awyr Cymru yn diolch am ein rhodd o £200

dd. Llythyr (8/3/2017) oddi wrth Clybiau Ffermwyr Ifanc Meirionnydd yn diolch am ein rhodd o £250.

e. Llythyr (16/3/2017) oddi wrth E.W. Owen a'i Chwmni yn cynnwys:

i. Copi o P60 am y flwyddyn yn diweddu 05/04/2017).

ii. Bil am £180 am gwblhau PAYE am y flwyddyn yn gorffen 5 Ebrill 2017.

Penderfynwyd talu'r bil.

f. Bil (14/3/2017) treth annomestig cenedlaethol ar gyfer 2017/18 tuag at Public Convenience Rhydymain oddi wrth Cyngor Gwynedd. Does dim tal am y cyfnod.

ff. Llythyr (16/3/2017) a Ffurflen Flynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017 oddi wrth BDO LLP (Archwiliwr Allanol). Angen cwblhau'r ffurflen erbyn Mehefin 19, 2017.

9. Adroddiad Cynghorydd Peredur Jenkins

Cafwyd gwybod bydd fwy o doriadau mewn gwasanaeth Cyngor Gwynedd os bydd gostyngiad yn y grant rhoddir gan y Llywodraeth.

Fe all Cyngor Gwynedd arbed arian trwy cwmniau cymunedol rhoi gwasanaeth oherwydd nid ydynt yn talu TAW sydd yn swm sylweddol i Cyngor Gwynedd.

10. Unrhyw fater arall

Nid oedd mater arall.

Llofnod: Dyddiad: